**Cofnodion cyfarfod cyntaf y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL
Y Cyng. Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. Delyth Macrae, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyng. W Tudor Owen, Cyngor Gwynedd
Y Cyng. J Rodney Skelland, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau
Mike Hough, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Paul Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Sandra Williams, Undeb yr FBU
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

YMDDIHEURIADAU
Colin Everett, Clerc
Ken Finch, Trysorydd
Richard Fairhead, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Ruth Simmons, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân

1 CYFLWYNIADAU

1.1 Agorodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y cyfarfod, a gofyn i bawb eu cyflwyno eu hunain.

2 PENODI CADEIRYDD

2.1 Gwahoddwyd yr Aelodau i benodi Cadeirydd ar gyfer y Bwrdd. Nodwyd bod y cylch gorchwyl yn datgan y bydd rôl y cadeirydd yn cylchdroi rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynlluniau. Bydd y Cadeirydd hefyd yn cynrychioli ATAGC ar y Bwrdd Pensiynau Cenedlaethol.

2.2 Cynigiodd y Cyng. Skelland enw'r Cyng. Tudor Owen, ac eiliwyd hyn gan yr aelodau eraill. Cynigiodd y Cyng. B Dunn ddirprwyo.

2.3 **PENDERFYNWYD penodi'r Cyng. Tudor Owen yn Gadeirydd a'r Cyng. B Dunn yn Ddirprwy Gadeirydd.**

3 CYLCH GWAITH DRAFFT

3.1 Roedd y cylch gwaith drafft wedi cael ei ddosbarthu, a gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau ar ei gynnwys. Nodwyd bod y cylch gwaith wedi cael ei lunio ar lefel genedlaethol a bod modd ei addasu ymhellach i ddiwallu anghenion ATAGC.

3.2 Bu'r Aelodau'n trafod yr aelodaeth, a nodi bod yn rhaid i'r Bwrdd gynnwys ***isafswm*** o chwe aelod, gyda chynrychiolaeth gyfartal o ochr y cyflogwr ac ochr aelodau'r cynlluniau.

3.3 Nodwyd bod pecyn hyfforddi cenedlaethol wedi cael ei baratoi, a chytunwyd y byddai elfen o hyfforddiant yn cael ei chynnwys ymhob cyfarfod er mwyn mynd drwy'r modiwlau.

3.4 Bydd Cadeiryddiaeth y Bwrdd yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynlluniau.

3.5 Dylai cworwm cyfarfod fod yn bedwar aelod i gyd.

3.6 **Cytunodd yr Aelodau i fabwysiadu'r cylch gwaith fel y'i diwygiwyd, a nodi y bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan ATAGC a'i adolygu bob blwyddyn.**

4 CADARNAU'R AELODAETH

4.1 Cadarnhawyd aelodaeth y Bwrdd fel a ganlyn:

<u>Cyflogwr:</u>
Pedwar aelod o ATAGC, sef y Cyng. Brian Dunn, y Cyng. Delyth Macrae, y Cyng. W Tudor Owen, y Cyng. J Rodney Skelland.
Clerc yr Awdurdod.
Trysorydd yr Awdurdod.

<u>Rheolwr y Cynllun:</u>
Dau gynrychiolydd o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag ATAGC:
Undeb yr FBU – Shane Price a Sandra Williams
Cymdeithas y Swyddogion Tân (FOA) – Mike Hough a Paul Scott
Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) – Richard Fairhead a Ruth Simmons.

4.2 Roedd Dawn Docx a Julie Brown yno ill dwy i gynghori.

4.3 **Cytunwyd ar aelodaeth y Bwrdd ar gyfer y cyfnod 2015-2017.**

5 EITEMAU O BWYS

5.1 Gofynnodd y DBST i'r aelodau nodi'r canlynol:

5.2 Mae'r Cadeirydd yn cael ei enwebu i sefyll ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Pensiynau Diffoddwyr Tân. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi penodi Mr Michael Prior i fod yn Gadeirydd y Bwrdd hwnnw.

5.3 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) wedi penodi rhywun i gynghori ynghylch y cynlluniau pensiwn, sef Clare Alcock, a hyd yn hyn mae hi wedi profi i fod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr.

5.4 Mae'r LGA yn cynnal fforymau cenedlaethol, ac mae Julie Brown yn eu mynychu ar ran GTAGC.

5.5 Ni all Aelodau'r Awdurdod bleidleisio yng nghyfarfodydd ATAGC ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â phensiynau.

6 CYFLWYNIAD: CYMHARU'R TRI CHYNLLUN PENSIWN

6.1 Rhoddodd Julie Brown gyflwyniad i roi gwybodaeth allweddol am bob un o'r tri chynllun pensiwn, sef Cynllun Pensiwn Tân (FPS) 1992, Cynllun Pensiwn Tân Newydd (NFPS) 2007 a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015. Roedd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y cynlluniau o ran materion megis cymhwysedd, cyfraniadau a sut y cafodd y buddion pensiwn eu cyfrifo.

6.2 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, a buont hefyd yn trafod materion cyflogaeth a allai godi.

6.3 **Nodwyd yr wybodaeth a chafodd yr aelodau gopi o'r cyflwyniad.**

7 DISGRESIYNAU'R CYFLOGWR

7.1 Taliad Datblygiad Proffesiynol Parhaus

7.1.1 Mae'r cynllun DPP wedi ei lunio i gydnabod a gwobrwyo gweithwyr profiadol sy'n gallu dangos datblygiad proffesiynol parhaus sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol ar lefel 'gymwys' dan bob un o'r safonau cenedlaethol. Er mwyn gallu cael taliad, rhaid i weithwyr lwyddo i ddangos cymhwysedd a bydd panel o reolwyr yn penderfynu ynghylch hyn. Tynnir y taliad ymaith os na fydd cymhwysedd yn cael ei ddangos neu os bydd achos disgyblu yn erbyn yr unigolyn. Mae swm y taliad yn amrywio ymhob Gwasanaeth; tua £600 y flwyddyn ydyw yn GTAGC.

7.1.2 O ran FPS 1992 ac NFPS 2007 mae taliadau DPP yn bensiynadwy, ond dan gynllun 2015, disgresiwn yr awdurdod sy'n cyflogi yw parhau i drin DPP yn bensiynadwy, oherwydd mae'r taliad yn cynyddu'r cyflog pensiynadwy blynyddol. Dywedodd y DBST mai gweld y broses bresennol yn parhau fyddai orau gan y swyddogion; cytunodd yr aelodau gan ddweud y gallai mwy o weithwyr gael eu hannog i wneud cais am DPP petai'r taliad yn rhan o'r cyflog cyfartaledd gyrfa ar gyfer eu pensiwn. **Felly, cytunwyd i argymell i'r ATA fod y taliad yn parhau i fod yn bensiynadwy.**

7.2 Yr hawl i ad-dalu cyfraniadau cyflogwyr:

7.2.1 Os yw gweithiwr yn cymryd gwyliau di-dâl ac eisiau prynu gwasanaeth pensiynadwy yn ôl am y cyfnod hwnnw rhaid iddynt dalu unrhyw gyfraniadau'r gweithiwr a gollwyd ond hefyd, mewn rhai achosion, rhaid iddynt, yn ôl disgresiwn yr awdurdod sy'n cyflogi, dalu'r cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr am y cyfnod dan sylw.

7.2.2 Bu'r Aelodau'n trafod gwahanol enghreifftiau a senarios lle gallai hyn ddigwydd megis seibiant gyrfa, afiechyd, gweithredu diwydiannol a seibiant mamolaeth di-dâl; fe wnaethant gytuno y dylid llunio polisi disgresiwn gyda rhestr o senarios, gan ddatgan mai penderfynu fesul achos y bydd y cyflogwr. **Caiff y polisi disgresiwn ei gyfeirio at yr ATA ym mis Mehefin 2015.**